



YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB, PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 36
GORFFENNAF 2010

Beth sy'n gyffredin rhwng y gwledydd canlynol: Nigeria, Cymru, Lloegr, Portiwgal, Mecsico a De Affrig?

Ie! Gwledydd ydynt sydd wedi cael siom yn ddiweddar! Profodd Cymru siom o golli dwy gêm rygbi yn Seland Newydd ac fe gafodd pob un o'r gwledydd eraill hefyd siom o golli gemau yng Nghystadleuaeth Pêl-droed Cwpan y Byd. Fel y gwyddom o'r adroddiadau niferus yn y papurau ac ar y rhaglenni radio a theledu bu yna gryn ddadansoddi ers hynny am fethiant y timoedd yma i gyrraedd y nod. Yn Nigeria, penderfynodd Arlywydd y wlad wahardd y tîm cenedlaethol rhag cymryd rhan mewn unrhyw gystadleuaeth ryngwladol am ddwy flynedd a hynny yn rhannol oherwydd eu perfformiad siomedig!

Ie! Nid yw siomiant yn parchu neb ac yn ddi-os fe ddaw nid yn unig i dimau rygbi a phêl-droed ond i bob yr un ohonom ni rywbryd neu'i gilydd mewn bywyd. Efallai y cawn ein siomi am inni golli rhyw gystadleuaeth bwysig mewn eisteddfod neu rhyw gêm ar y maes chwarae neu am inni fethu â gwneud cystal â'r disgwyl mewn arholiad. Yn sicr un o'r pethau gwaethaf mewn bywyd yw profi siom ynom ni ein hunain pan fyddwn wedi bod yn ansensitif, yn fyrbwyll, yn ffôl neu am i ni fethu â gwneud ein gorau. Ac y mae'r profiad o siom yn hen brofiad digon diflas.

Yn aml wedi inni gael ein siomi fe fyddwn yn teimlo'n drist, yn ddig, yn anobeithiol ac o bosib rhywfaint o gywilydd. Sut felly yr ydym yn delio â theimladau o'r fath yn ein bywydau mewn ffordd gadarnhaol?

Mae'n bwysig bob amser wynebu ein siomedigaethau a cheisio dysgu unrhyw wersi y medrwn er mwyn osgoi profiadau cyffelyb yn y dyfodol. Rhaid inni beidio â thristáu yn ormodol ond cofio hefyd am ein cryfderau ac am yr holl bethau cadarnhaol yn ein bywydau. Pan ddaw siom mae'n medru bod yn ysgogiad inni edrych ar ein bywydau o'r newydd ac ystyried a oes angen newid unrhywbeth er gwell. Ynghanol pob siom fe ddiolchwn am y rhai a fydd yn barod i'n hannog a'n cefnogi megis teulu a chyfeillion. O ymateb i'n siomedigaethau mewn ffordd gadarnhaol fe fydd modd inni gryfhau fel unigolion a pheidio â gadael i unrhyw siom ein llethu yn ormodol.

Un a wynebodd ddigonedd o siomedigaethau wrth iddo weithio dros ei Arglwydd oedd yr Apostol Paul. Anodd credu bod un o gewri'r Testament Newydd wedi wynebu siomedigaethau wrth iddo fynd o wlad i wlad yn cenhadu dros yr Iesu. Gwyddom am bobl Athen yn ei wawdio, am iddo gael ei roi yn y carchar fwy nag unwaith ac am yr anghydweld a fu rhyngddo a rhai o'i gyd-Gristnogion. Mae'n siwr i'r pethau hyn beri siom enfawr iddo. Ond beth oedd ymateb Paul i hyn oll? Digalonni? Chwerwi? Diflasu? Rhoi'r ffidl yn y to? Dim peryg! Dywed wrthym yn ei ail lythyr at y Corinthiaid:

"Ym mhob peth yr ydym yn cael ein gorthrymu ond nid ein llethu, ein bwrw i ansicrwydd ond nid i anobaith, ein herlid ond nid ein gadael yn amddifad, ein taro i lawr ond nid ein dinistrio...Am hynny, nid ydym yn digalonni." (2. Cor.4: 8-9,16)

Roedd Paul yn medru dweud hyn yn gwbl hyderus am ei fod yn credu yn angerddol yng ngallu'r Arglwydd Iesu i'w gynnal a'i gynorthwyo ar daith bywyd ac am fod goleuni'r Crist yn mynnu llewyrchu drwy bob profiad o siom a ddaeth i'w ran.

Pob bendith dros yr haf

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW

Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

CALENDR GORFFENNAF/AWST 2010

Cyhoeddwr y Mis: Robert Dobson	Organydd y Mis: Ceris Gruffudd	
4 Gorffennaf 2.30yp	Oedfa Gymun	Gofal Bwrdd y Cymun: Wendy Reynolds
11 Gorffennaf (Gweler trefniadau'r bws isod)	Gwibdaith i Silian	
18 Gorffennaf 2.30yp	Oedfa Bregeth Te i ddilyn yr oedfa	Gofal y Te: I'w drefnu
25 Gorffennaf 10.00yb	Oedfa Gymun	Gofal Bwrdd y Cymun: I'w drefnu
1 Awst 10.00yb a 6.00yh MORFA	Y Br. Ddr. Rhidian Griffiths Y Parchedig Enid Morgan	
8 Awst 10.00yb a 6.00yh MORFA	Y Parchedig Eifion Roberts	
15 Awst 10.00yb a 6.00yh SEION	Y Parchedig Ddr. D. Ben Rees	
22 Awst 10.00yb a 6.00yh SEION	Y Parchedig Ddr. Terry Edwards	
29 Awst 10.00yb a 6.00yh MORFA	Y Parchedig Carwyn Arthur	
5 Medi 2.30yp	Oedfa Gymun	Gofal Bwrdd y Cymun: Sue Hughes

I'CH DYDDIADUR

5 Gorffennaf : Cinio Cymorth Cristnogol : Eglwys Dewi Sant, Stryd y Baddon. 12.00-1.30yp
 5 Gorffennaf : Cyfarfod Taith Dewi Sant yn Festri Horeb am 8yh. Croeso cynnes i bawb.
 12-14 Gorffennaf : Cyfarfodydd Blynnyddol Undeb Bedyddwyr Cymru ym Methel Glanymôr, Llanelli.
 14 Gorffennaf : Cinio Cymunedol yn Neuadd yr Eglwys
 14 Gorffennaf : Cymdeithas Bethel : Edrychwn ymlaen at groesawu Miss Beti Griffiths, Llanilar am 2yp.
 17 Gorffennaf : Cyngerdd Parti Merched y Gaiman, Patagonia yn Y Morlan am 7.30yh
 27 Gorffennaf : Cwrdd Gweddi am 7.30yh.
 28 Gorffennaf : Cinio Cymunedol yn Neuadd yr Eglwys
 11 Awst : Cinio Cymunedol Neuadd yr Eglwys (Horeb yn gyfrifol am weini)
 25 Awst : Cinio Cymunedol Neuadd yr Eglwys
 6 Hydref : Oedfa Ddiolchgarwch yn y Neuadd o dan arweiniad y Parchedig Tecwyn Ifan.

LLOFFION

Diolch i bawb a gefnogodd yr oedfa ym Methel ar y Sul olaf ym Mehefin ac ymddiheuriadau i'r rhai na dderbyniodd y neges mewn pryd.

Dymuniadau gorau i Mrs Minnie Williams a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 99 mlwydd oed ym mis Gorffennaf a brysiwch wella wedi'r cwmp.

Llongyfarchiadau i Trystan sydd wedi ennill gradd dosbarth cyntaf.

Gwibdaith i Silian: 11eg Gorffennaf: Fe fydd y bws yn ein codi ni yn y mannau ac ar yr amseroedd canlynol: Neuadd Penrhyn-coch: 12.15 ; Mrs Doreen Sedgwick: 12.25; Glyn Padarn: 12.30; Gorsaf Aberystwyth: 12.35

Taith Dewi Sant : Cofiwch am y genhadaeth a fydd yn digwydd yn yr ardal o'r 2ail -10fed o Hydref. Fe fydd angen sicrhau cartrefi lle gall y gwirfoddolwyr gael pryd o fwyd gyda'r hwyr (a chawod o bosib). Os ydych yn barod i wahodd dau wirfoddolwr am swper i'ch cartref yn ystod ail hanner yr wythnos byddem yn hynod ddiolchgar.